

We asked

NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited applied to the Environment Agency to change its water discharge activity permit in December 2022.

The water discharge activity permit is a permit to discharge returned abstracted seawater from the cooling water system, fish recovery and return system, and other liquid trade effluents (including treated sewage effluent) to the Bristol Channel.

We asked for your comments during a consultation on the application from 24 January to 2 March 2023, and on our proposed decision and draft permit from 25 April to 25 May 2023.

When we consulted, we explained that the consultations were not about the need for nuclear power, UK energy policy or policy relating to the siting of nuclear power stations.

During the consultations we shared information and explained our proposed decision. We emphasised that we would not make any final decisions until we had considered all relevant responses to the consultation.

You said

We received 245 responses from organisations and members of the public

- For our consultation on the permit application, we received 50 responses
- For our consultation on the proposed decision and draft permit, we received 193 responses

All responses to our consultation (if the respondent gave permission) are published on this page.

Information about which organisations responded and how each response has been considered is included in our final decision document.

The Hinkley C project team would like to thank everyone who responded to the consultations and attended the online engagement meetings.

We did

We have assessed the permit application, reviewed the evidence and carefully considered the responses we received from both consultations.

Our final decision is that we should grant the permit variation the operator has requested. We have added new limits and conditions in the permit to protect people and the environment.

The previous permit version (EPR/HP3228XT/V004) regulated the operational water discharge activities from Hinkley Point C – they are discharges of these non-radioactive liquid effluents:

- returned cooling water from the turbine condensers
- trade process effluents from the various plant systems (including those that maintain water purity and chemistry to keep the best operating conditions and maximise efficiency)
- treated sewage effluent (from staff welfare facilities)

The final varied permit will also now regulate the returned seawater through a fish recovery and return system.

As a result of our assessment on the impact of the fish recovery and return system discharge, we have included limits on volume, rate and the total biomass discharged from the fish recovery and return system outlet.

We have removed all conditions (or parts of conditions) relating to the acoustic fish deterrent (AFD).

We have concluded that there would be no adverse effect on the integrity of the relevant European designated sites (in relation to pollution from regulated discharges to waters) if there is no AFD in place. This includes those sites functionally linked to the Severn Estuary. The discharges will not result in the condition of relevant SSSIs deteriorating or prevent them from improving or recovering.

We have also concluded that the permit variation will not cause the current status of the water bodies to deteriorate or prevent them from achieving their objectives.

The final varied permit includes the requirement to use an additional operating technique and an improvement condition. It also includes 2 pre-operational conditions which need Environment Agency approval before the proposed power station can be commissioned or begin to operate. These are included to make sure that NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited builds and operates the proposed power station according to the commitments made in its permit variation application.

The final permit, decision document and public summary are [published below and on GOV.UK](#).

Read more about our work [regulating Hinkley](#).

Fe ofynnem

Fis Rhagfyr 2022, cyflwynodd NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited gais i Asiantaeth yr Amgylchedd i newid ei drwydded ar gyfer gweithgarwch gollwng dŵr.

Mae'r drwydded gweithgaredd gollwng dŵr yn drwydded i ollwng dŵr môr a ddychwelwyd o'r system dŵr oeri, y system adfer a dychwelyd pysgod, ac elifion masnach hylifol eraill (gan gynnwys elifion carthion wedi'u trin) i Fôr Hafren.

Gofynnem am eich sylwadau yn ystod ymgynghoriad ar y cais rhwng 24 Ionawr a 2 Mawrth 2023, ac ar ein penderfyniad arfaethedig a'n trwydded ddrafft o 25 Ebrill i 25 Mai 2023.

Pan wnaethom ymgynghori, esboniom nad oedd a wnelo'r ymgynghoriadau â'r angen am ynni niwclear, polisi ynni'r DU na pholisi'n ymwneud â lleoli gorsafoedd ynni niwclear.

Yn ystod yr ymgynghoriadau buom yn rhannu gwybodaeth ac yn egluro ein penderfyniad arfaethedig. Pwysleisiwyd na fyddem yn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol hyd nes y byddwn wedi ystyried yr holl ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad.

Fe ddwedasoch

Cawsom 245 o ymatebion gan sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd

- Ar gyfer ein hymgyngoriad ar y cais am drwydded, cawsom 50 o ymatebion
- Ar gyfer ein hymgyngoriad ar y penderfyniad arfaethedig a'r drwydded ddrafft, cawsom 193 ymateb

Mae'r holl ymatebion i'n hymgyngoriad (os rhoddodd yr ymatebydd ganiatâd) ar y dudalen hon.

Mae gwybodaeth am ba sefydliadau a ymatebodd a sut yr ystyriwyd pob ymateb wedi'i chynnwys yn ein dogfen penderfyniad terfynol.

Hoffai tîm prosiect Hinkley C ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriadau ac a fynychodd y cyfarfodydd ymgysylltu ar-lein.

Fe wnaethom

Rydym wedi asesu'r cais am drwydded, wedi adolygu'r dystiolaeth ac wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion a gawsom o'r ddau ymgynghoriad.

Ein penderfyniad terfynol yw y dylem ganiatáu'r amrywiad trwydded y mae'r gweithredwr wedi gofyn amdano. Rydym wedi ychwanegu terfynau ac amodau newydd yn y drwydded i ddiogelu pobl a'r amgylchedd.

Roedd fersiwn y drwydded flaenorol (EPR/HP3228XT/V004) yn rheoleiddio'r gweithgareddau gollwng dŵr gweithredol o Hinkley Point C – maent yn ollyngiadau o'r elifion hylifol anymbelydrol hyn:

- dŵr oeri yn dychwelyd o gyddwysyddion y tyrbinau
- elifiannau'r broses fasnachu o amrywiol systemau'r orsaf (gan gynnwys y rheini sy'n cynnal purdeb dŵr a chemeg i gynnal yr amodau gweithredu gorau a gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd)
- elifiannau carthffosiaeth wedi'i drin (o gyfleusterau llesiant staff)

Bydd y drwydded amrywiol derfynol hefyd yn awr yn rheoleiddio'r dŵr môr a ddychwelir trwy system adfer a dychwelyd pysgod.

O ganlyniad i'n hasesiad o effaith y system adfer a dychwelyd pysgod, rydym wedi cynnwys cyfyngiadau ar gyfaint, cyfradd a chyfanswm y biomas a ollyngir o'r system adfer a dychwelyd pysgod.

Rydym wedi dileu'r holl amodau (neu rannau o amodau) sy'n ymwneud â'r ataliad pysgod acwstig (AFD).

Rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd dynodedig Ewropeaidd perthnasol (mewn perthynas â llygredd o ollyngiadau rheoledig i ddyfroedd) os nad oes AFD ar waith. Mae hyn yn cynnwys y safleoedd hynny sy'n weithredol gysylltiedig ag aber yr Afon Hafren. Ni fydd y gollyngiadau yn arwain at ddirywiad yng nghyflwr SoDdGA perthnasol nac yn eu hatal rhag gwella neu adfer.

Rydym hefyd wedi dod i'r casgliad na fydd yr amrywiad i drwydded yn achosi i statws presennol y cyrff dŵr ddirywio nac yn eu hatal rhag cyflawni eu hamcanion.

Mae'r drwydded amrywio derfynol yn cynnwys y gofyniad i ddefnyddio techneg gweithredu ychwanegol ac amod gwella. Mae hefyd yn cynnwys 2 amod cyn-weithredol sydd angen eu cymeradwyo gan Asiantaeth yr Amgylchedd cyn y gellir comisiynu neu ddechrau gweithredu'r orsaf bŵer arfaethedig. Mae'r rhain wedi'u cynnwys i wneud yn siŵr bod NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited yn adeiladu ac yn gweithredu'r orsaf bŵer arfaethedig yn unol â'r ymrwymadau a wnaed yn ei gais amrywio trwydded.

Mae'r drwydded derfynol, y ddogfen penderfyniad a'r crynodeb cyhoeddus wedi'u cyhoeddi isod ac ar [GOV.UK](https://www.gov.uk)

Darllenwch ragor am ein gwaith yn [rheoleiddio Hinkley](#)